# CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

## C203 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod Cabinet Bro Morgannwg.

Atgoffwyd yr Aelodau a'r Swyddogion bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr sicrhau, os oeddent yn cymryd rhan yn y Siambr ei hun am beidio ag actifadu eu meicroffon, ac i fynychwyr o bell 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir neu atsain pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, ac os oedd cyfranogwr yn dymuno siarad a allai actifadu ei swyddogaeth cais i siarad briodol neu ddefnyddio'r botwm 'codi llaw' os yn mynychu o bell.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd.

## C204 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.D. Perkes.

## C205 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C206 CYLLIDEB GYCHWYNNOL 2024/25 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/25 I 2028/29 CYNIGION AR GYFER YMGYNGHORI (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno cynigion cyllideb y Cyngor ar gyfer ymgynghori â thrigolion, rhanddeiliaid eraill a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor.

Roedd paragraff 1.2 yn rhestru'r egwyddorion sylfaenol a oedd heb eu newid ac yn sail i'r cynigion cyllideb a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad. Parhaodd ffocws ar gefnogi gofal cymdeithasol ac addysg i gefnogi'r trigolion mwyaf agored i niwed ym Mro Morgannwg. Byddai ffioedd a thaliadau yn parhau i gael cymhorthdal lle roedd materion yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol ond o ran gwasanaethau anstatudol, byddai adennill costau llawn yn cael ei geisio. Roedd yn bwysig bod cyfrifoldeb ar y cyd i reoli'r cyllid, a bod y cyllid hwnnw'n hygyrch ac yn dryloyw.

Er gwaethaf yr amodau economaidd heriol cyffredinol bu twf sylweddol mewn cyflogau a oedd yn her i gyflogwr mawr. Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy i Lywodraeth Leol na'r hyn a gafwyd, roedd yn dal i fod yn ostyngiad gwirioneddol mewn gwariant o'i gymharu â chwyddiant.

Roedd y tabl ar dudalen 6 yr adroddiad yn disgrifio'r gwariant net ar gyfer 2023/24 gan ddangos bod bron i dri chwarter o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar Ysgolion a Gofal Cymdeithasol, felly roedd yn rhaid i unrhyw arbedion cost arfaethedig wrth drafod y gyllideb ddod o'r pump ar hugain y cant a oedd yn weddill er mwyn diogelu addysg a gofal cymdeithasol.

Roedd y tabl ym mharagraff 2.24 yr adroddiad yn rhestru'r Themâu Tactegol a Thrawsnewidiol, gyda llawer ohonynt yn ceisio mynd i'r afael â ffyrdd doethach o gyflawni i sicrhau’r effaith orau i drigolion Cyngor Bro Morgannwg, gan gynnwys defnydd gwell a mwy effeithiol o eiddo'r Cyngor a'i weithlu. Cyfeiriodd paragraff 2.29 yr adroddiad at y gostyngiad posibl o £0.470M i gefnogi llwybrau bysus anfasnachol a ystyriwyd yn annerbyniol fel gwasanaethau hanfodol i drigolion Bro Morgannwg, ac a gafodd effaith ar y lefel arfaethedig o Dreth Gyngor yr oedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal arni gyda chadw'r cymorth a roddir ar lwybrau anfasnachol yn cyfrannu at 0.5% o'r cynnydd arfaethedig o 6.7% ac roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at y drafodaeth ar y mater hwnnw gyda Phwyllgorau Craffu.

Roedd tabl 2.62 yr adroddiad yn dangos y Crynodeb o Gronfeydd Wrth Gefn dros y 5 mlynedd nesaf, gan ddangos y rhagwelwyd y byddent yn lleihau £14m dros y cyfnod hwnnw, gan ostwng £8m dros y flwyddyn bresennol.

Nodwyd yr amserlen a'r dyddiadau allweddol ar gyfer yr ymgynghoriad a'r penderfyniadau ynghylch y gyllideb ym mharagraff 2.70 yr adroddiad gyda’r penderfyniad terfynol yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2024 a'r gobaith oedd y byddai pobl yn manteisio ar y cyfle i gael mewnbwn llawn i'r adroddiad yn y cyfamser.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Brooks bwysigrwydd cyllid ar gyfer gwasanaethau bysus a gefnogir a oedd yn cefnogi llawer o drigolion Bro Morgannwg. Roedd y Cyngor yn wynebu rhai dewisiadau cyllidebol anodd wrth geisio cynnal gwasanaethau ar ôl deng mlynedd o arbedion drwy gyni a phenderfynwyd cynnig y byddai £470k yn cael ei gyflwyno gan y Cyngor ynghyd â chymorth cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru i gynnal y gwasanaethau hanfodol hynny. Byddai'r cynnydd hanner y cant wedi'i glustnodi arfaethedig o ran y Dreth Gyngor yn sicrhau parhad ac ymrwymiad y Cyngor i'r gwasanaethau bysus a gefnogir. Parhaodd y swyddogion i weithio i sicrhau'r cyllid angenrheidiol i gadw gwasanaethau bysus ar waith ar draws Bro Morgannwg. Diolchodd yr Arweinydd i'r Tîm Trafnidiaeth wrth i drafodaethau barhau gyda Llywodraeth Cymru.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Wilson fod y Cyngor wedi derbyn 3.1% gan Lywodraeth Cymru, ond dim ond cynnydd o 2.1% wnaeth Llywodraeth y DU ei anfon i Lywodraeth Cymru. Roedd y broses gyllidebol yn hir ac yn anodd a chymerodd fisoedd o drafod. Dangosodd tabl 1.12 yr adroddiad mai dim ond 3% o gyfanswm cyllideb 2023/24 oedd Gwastraff ac Ailgylchu, gyda Phriffyrdd yn 2% yn unig, ond roedd yn rhaid mynd i'r afael â phob agwedd ar y gyllideb i fynd i'r afael â photensial arbedion wrth ddiogelu addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Diolchodd y Cynghorydd Wilson hefyd i'r Swyddogion yn ei Bortffolio ac ar draws y Cyngor am eu gwaith fel rhan o'r trafodaethau cyllidebol gan nad oedd wedi bod yn dasg hawdd.

Cytunodd y Cynghorydd John fod y cynigion cyllideb wedi bod yn her enfawr eleni ac nad oedd wedi wynebu her debyg iddi yn ei 25 mlynedd o fod yn Gynghorydd. Rhoddodd glod i'r Tîm Cyllid, a phawb cysylltiedig, a oedd wedi bod yn rhan o drafodaethau ar y gyllideb am 6 mis i lunio'r cynigion. Roedd yn falch y byddai gwasanaethau bysus a gefnogir yn cael eu diogelu gan eu bod yn gyswllt hanfodol i drigolion cefn gwlad Bro Morgannwg. Pwysleisiodd y byddai'r flwyddyn i ddod yn anodd, ac y byddai'r Cyngor yno i helpu. Effeithiodd y sefyllfa ariannol ar Gymru gyfan ac roedd rhai Cynghorau yn edrych ar gynnydd llawer uwch arfaethedig yn y Dreth Gyngor, ond byddai'n ddiddorol gweld yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r ymgynghoriad a'r trafodaethau i ddod er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys yn unol â gofyniad cyfreithiol y Cyngor.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD sefyllfa ariannol wedi'i diweddaru'r Cyngor fel y nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) BOD y rhagdybiaethau cyllid a gwariant diwygiedig, ynghyd â'r cynigion arbedion drafft yn cael eu cymeradwyo, a bod yr adroddiad a'r atodiadau yn cael eu cyfeirio at Bwyllgorau Craffu i'w hystyried a'u trafod, gyda holl

safbwyntiau'r Pwyllgorau yn cael eu cyfeirio i'w graffu yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ac i ymateb cyfansawdd gael ei ddatblygu a'i gyfeirio'n ôl at gyfarfod Cabinet Arbennig ar 29 Chwefror 2024.

(3) BOD y cynigion arbedion fel y disgrifiwyd yng nghorff yr adroddiad a'r atodiad yn cael eu cymeradwyo i'w cyhoeddi ar gyfer ymgynghori â thrigolion Bro Morgannwg a grwpiau eraill y mae cyllideb y Cyngor yn effeithio arnynt fel y disgrifiwyd yng nghorff yr adroddiad.

(4) BOD y lefel sylfaenol o bwysau ariannol heb ei chynnwys yn y cynigion, yn fwyaf nodedig ariannu dyfarniadau cyflog yn llawn a bodloni gofynion darparwyr yn eu codiadau blynyddol yn cael ei nodi.

(5) BOD y defnydd o'r weithdrefn frys fel y nodwyd yn adran 15.14 o gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gytuno i gyfeirio'r adroddiad fel y disgrifiwyd ym Mhenderfyniad (2) i'w ystyried cyn gynted â phosibl.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Roedd yn bwysig bod y Cabinet yn cael gwybod am sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyngor yn rheolaidd.

(2) Roedd craffu yn rhan hanfodol o'r broses o osod y gyllideb ac roedd yn bwysig dilysu'r rhagdybiaethau cyllid ac arbedion ac roedd y cynigion arbedion yn realistig ac yn gyraeddadwy ac ni fyddent yn achosi unrhyw effeithiau anfwriadol.

(3) Sicrhau ymgynghoriad eang ar y cynigion arbedion.

(4) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol bod gwaith ar waith i reoli a lliniaru'r pwysau hynny ond eu bod serch hynny yn risg ariannol sylweddol.

(5) Sicrhau y gellid cyflwyno'r adroddiad Cyllideb Gychwynnol 2024/25 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 i 2028/29 - Cynigion ar gyfer Ymgynghori i Gabinet Arbennig ar 29 Chwefror 2024 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**C207 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2024/25 I 2028/29 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cael cymeradwyaeth ar gyfer y Cynigion Rhaglen Gyfalaf Drafft ar gyfer 2024/25 i 2028/29 fel y gellir eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu ar gyfer ymgynghori, cyn i'r Cynigion Cyfalaf terfynol gael eu cyflwyno i'r Aelodau ym mis Chwefror 2024.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn hanfodol cydbwyso'r hyn yr oedd y Cyngor am ei gyflawni o ran cyfalaf oherwydd pe bai costau benthyca o £709k y flwyddyn, byddai hynny'n golygu 1% yn ychwanegol ar y Dreth Gyngor bob blwyddyn i'w dalu ar gyfer y costau hynny.

Byddai gofyn i Graffu adolygu'r rhaglen gyfalaf ddrafft a gwneud unrhyw sylwadau i'r Cabinet erbyn 29 Chwefror 2024, gydag ymgynghoriad cymunedol yn dod i ben ganol mis Chwefror, y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Chwefror/dechrau mis Mawrth a byddai'r cynigion terfynol yn cael eu hystyried gan y Cyngor mewn cyfarfod i'w gynnal ar 6 Mawrth 2024 er mwyn gosod y Dreth Gyngor erbyn 11 Mawrth 2024.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Rhaglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2024/25 i 2028/29 yn cael ei chyflwyno ar gyfer ymgynghori â'r holl Bwyllgorau Craffu.

(2) BOD unrhyw argymhellion gan y Pwyllgorau Craffu yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol, fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, er mwyn i'w barn gael ei hanfon at y Cabinet.

(3) BOD y cynnydd yn y gyllideb a'r gwaith o ailbroffilio Band B Iolo Morgannwg fel y nodwyd yn nhabl 12 yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar argymhellion 1 a 2.

(4) BOD y gwaith o ailbroffilio'r Rhaglen Gwella Tai yn cael ei gymeradwyo yn unol â'r Cynllun Busnes Tai fel y nodwyd yn nhabl 16 yr adroddiad yn amodol ar argymhellion 1 a 2.

(5) BOD y defnydd o'r weithdrefn frys fel y nodwyd yn adran 15.14 o gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gytuno i gyfeirio'r adroddiad fel y disgrifiwyd ym Mhenderfyniad (2) i'w ystyried cyn gynted â phosibl.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Ymgynghori â'r Aelodau ar y Rhaglen Cyfalaf ar gyfer 2024/25 i 2028/29.

(2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am sylwadau'r Pwyllgorau Craffu cyn gwneud cynnig ar y Rhaglen Gyfalaf.

(3) Adlewyrchu'r rhaglen waith ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

(4) Adlewyrchu'r Cynllun Busnes Tai.

(5) Sicrhau y gellid cyflwyno adroddiad Cynigion Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i 2028/29 Drafft i Gabinet Arbennig ar 29 Chwefror 2024 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**C208 AIL-LUNIO: Y CAM NESAF O DRAWSNEWID (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cam nesaf rhaglen newid trawsnewidiol y Cyngor, Ail-lunio. Roedd y Cyngor wedi bod yn delio â chyllidebau heriol ers 2010 a lansiodd y rhaglen Ail-lunio wreiddiol yn 2015. Roedd y gwaith o sefydlu pum llyfrgell gymunedol wedi bod yn llwyddiant ac wedi rhoi cymorth peripatetig i'r gymuned gan y Cyngor ac roedd staff y Cyngor wedi gweithio mewn ffyrdd newydd i ddarparu gwasanaethau ac wedi gallu achub Pafiliwn Pier Penarth a chreu cynaliadwyedd ynghylch canolfan gymunedol newydd Bellevue. Roedd gweithio mewn partneriaethau wedi galluogi'r Cyngor i liniaru'r £59m mewn arbedion i ryw raddau rhwng 2010/11 a 2021 drwy gyni.

Roedd y Cynghorydd Wilson wrth ei fodd y byddai'r adroddiad yn cael ei rannu gyda llawer o randdeiliaid yn unol ag argymhelliad (3) yr adroddiad gan ei bod yn bwysig clywed gan yr holl bartneriaid hynny a'r gymuned sy'n gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau a'u hail-lunio er budd y gymuned.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y Model Gweithredu Targed fel y disgrifiwyd ym Mharagraff 2.2 yr adroddiad a fyddai'n gofyn pa fath o sefydliad yr oedd y Cyngor am fod o ran prosesau, pobl, strwythur a llywodraethu ac a fyddai'n cysylltu â'r Cynllun Corfforaethol. Cyfeiriodd Cryfhau Cymunedau at sut y gallai'r Cyngor gryfhau a galluogi cymunedau i gefnogi eu hunain, fel yr oedd cymaint wedi'i wneud yn ystod y pandemig. Byddai Arloesi Digidol yn edrych ar sut i ryddhau adnoddau i'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol a byddai casglu data yn galluogi penderfyniadau ynghylch yr hyn a oedd yn digwydd yn y gymuned. Maes o ffocws o fewn Gwydnwch Economaidd cymunedau fyddai drwy ymateb y Cyngor i gyllid Trawsnewid Trefi a Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a pha effaith y byddai hynny'n ei chael ar Fro Morgannwg pan fo'r cyllid ar gael.

Dywedodd y Cynghorydd Brooks fod Ail-lunio wedi bod yn newydd i bob Cyngor a'i fod wedi esblygu a newid yn araf dros y blynyddoedd, gyda hybiau cymunedol fel y llyfrgelloedd cymunedol a'r Cynllun Croeso Cynnes yn datblygu ac yn dod yn rhan annatod o bob cymuned. Roedd llawer o'r cynlluniau hynny'n delio â materion fel ynysu cymdeithasol a oedd yn bwysig ar ôl y pandemig gan ei fod yn effeithio ar iechyd a chyllid pobl ac roedd y cynlluniau hynny yno i gynnig cymorth.

Dywedodd y Cynghorydd John fod sawl cynllun Ail-lunio yn dod drwy'r system, ond ei bod yn bwysig cofio nad oedd hi wastad yn bosibl, lle roedd materion fel mynediad cyhoeddus i dir yn bodoli, roi rheolaeth lwyr i gymuned ond y byddai'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth lle bo hynny'n bosibl.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) BOD y cynigion ar gyfer datblygu cam nesaf rhaglen newid trawsnewidiol y Cyngor, Ail-lunio, yn cael eu nodi fel y nodwyd yn yr adroddiad.

(3) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol, y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd, Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, rhwydweithiau amrywiaeth y Cyngor a'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb i'w ystyried a bod unrhyw farn yn cael ei rhannu gyda'r Prif Weithredwr ac yn cael ei hadrodd i'r Cabinet maes o law.

(4) BOD y Cabinet yn derbyn diweddariadau pellach ar y Rhaglen Ail-lunio wrth iddi ddatblygu ochr yn ochr â gwaith y Cyngor ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol newydd.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y gwaith sydd ar y gweill i drawsnewid y Cyngor.

(2) Galluogi'r rhaglen Ail-lunio i gael ei datblygu ymhellach.

(3) Gofyn am farn ystod eang o randdeiliaid wrth ddatblygu'r rhaglen.

(4) Galluogi'r Cabinet i dderbyn diweddariadau pellach maes o law a sicrhau bod y gwaith ar y rhaglen newid trawsnewidiol yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd ac yn cefnogi'r broses o gyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn effeithiol.

**C209 ADRODDIAD DIWEDDARU: NEWIDIADAU I'R GWASANAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF 2023/24 (WCA) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i osod y taliadau ar gyfer tanysgrifio i wasanaethau gwastraff gwyrdd ar gyfer 2024/25 ac adrodd ar berfformiad newidiadau gwasanaeth a gyflwynwyd, mis Gorffennaf 2023.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y gwasanaeth gwastraff gwyrdd a gyflwynwyd a oedd yn cynrychioli arbedion blwyddyn lawn cymharol o £473,904 a oedd bron â bwrw'r targed o £500k ac roedd yn nodedig gan fod y flwyddyn wedi cynnwys heriau fel yr argyfwng costau byw a phroblemau gydag argaeledd gyrwyr.

Anogodd y Cynghorydd Wilson drigolion a oedd yn bwriadu cofrestru ar gyfer y cynllun eto ar gyfer 2024/25 i wneud hynny cyn gynted â phosibl er mwyn manteisio'n llawn ar y gwasanaeth rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2024 a rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025. Cynigiwyd i'r taliadau aros ar yr un lefel ar gyfer 2024/25 â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd y gost yn adlewyrchu'r gwasanaeth dros y flwyddyn.

Yn 2022/23 roedd perfformiad ailgylchu'r Awdurdod wedi gostwng o 70.2% i 67.8%, ond ar gyfer 2023/24 roedd y gyfradd honno hyd at 70.25% a diolchodd y Cynghorydd Wilson i drigolion Bro Morgannwg am ddefnyddio'r gwasanaeth gwastraff gwyrdd. Atgoffodd y Cynghorydd Wilson gydweithwyr yn y Cabinet fod y gwasanaeth gwastraff gwyrdd yn wasanaeth anstatudol ond ei fod yn cael ei ddarparu er hwylustod i drigolion Bro Morgannwg.

Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at newidiadau i gasgliadau ar gyfer fflatiau lle'r oedd llawer o gasgliadau yn dal i gael eu gwneud bob pythefnos a chynigiwyd newid arfaethedig i gasgliadau bob tair wythnos ochr yn ochr â chasgliadau eraill er cysondeb. Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at argaeledd a defnydd bagiau cwad ar gyfer fflatiau a fyddai'n helpu trigolion â lle cyfyngedig i ailgylchu mwy a dywedodd eu bod am ddim i'w casglu o lyfrgelloedd neu fod modd gwneud cais amdanynt ar-lein. Gwnaeth hefyd annog trigolion i fod yn ymwybodol o'r hyn y gellid ei ailgylchu ac annog pobl i lanhau ac ailgylchu cymaint â phosibl.

Roedd rhai o'r datblygiadau newydd ar gyfer ailgylchu yn cynnwys casglu batris wrth ymyl y ffordd, gan gynnwys y potensial i ailgylchu fêps yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Dangosodd tabl 3 yr adroddiad y byddai 30 tunnell o ddeunydd dros y flwyddyn ddiwethaf bellach yn cael ei ailgylchu yn y dyfodol. Tynnodd y Cynghorydd Wilson sylw trigolion hefyd at fentrau fel Siop Ailddefnyddio'r Barri a'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Llandŵ a oedd yn adnoddau pwysig. Roedd gwelliannau i arwynebau ffyrdd hefyd yn mynd rhagddynt yn Llandŵ i wneud y cyfleuster yn fwy hygyrch, ac roedd Swyddogion yn bwrw ymlaen â gwaith ar brydles ar gyfer y safle hwnnw.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson hefyd at baragraffau 2.47 i 2.65 a oedd yn manylu ar rai mentrau Llywodraeth Cymru a fyddai'n gweithio i annog y cyhoedd a busnesau i fod yn fwy ymwybodol ac ailgylchu mwy lle bo hynny'n bosibl. Anogodd fusnesau a allai fod eisiau cyngor i fodloni rheoliadau statudol i gysylltu â'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Dywedodd y Cynghorydd John fod y gwasanaeth gwastraff gwyrdd yn cynnig gwerth ardderchog am arian ac yn arbed amser i drigolion Bro Morgannwg ac yn cynnig gwasanaeth cyfleus.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD perfformiad presennol y gwasanaeth gwastraff ers gweithredu newidiadau i’r gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2023 yn cael ei nodi.

(2) BOD y tâl tanysgrifio blynyddol o £36.00 am hyd at 8 bag a £54.00 am swm diderfyn yn cael ei gymeradwyo ar gyfer 2024/25 ar amlder o unwaith y pythefnos rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd ac ar wasanaeth ffonio a gwneud cais ar sail y cyntaf i'r felin, rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror i danysgrifwyr y gwasanaeth.

(3) BOD y casgliadau bagiau du bob tair wythnos ar gyfer fflatiau o fis Mawrth 2024 yn cael eu cymeradwyo mewn egwyddor.

(4) BOD y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau deddfwriaethol newydd ac sydd yn yr arfaeth ar gyfer gwastraff yn cael ei nodi.

(5) BOD y wybodaeth ddiweddaraf am seilwaith yn cael ei nodi.

(6) BOD y weithdrefn frys a nodir yn adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei defnyddio mewn perthynas â Phenderfyniad (2).

(7) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried, gydag unrhyw sylwadau ac argymhellion yn cael eu cyfeirio i'r Cabinet i’w hystyried.

(8) BOD Penderfyniad (3) yn cael ei ystyried yn gymeradwy oni bai bod unrhyw safbwyntiau i'r gwrthwyneb yn cael eu mynegi gan y Pwyllgor Craffu’r Amgylchedd ac Adfywio.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Rhoi gwybod am ganlyniad perfformiad y newidiadau gwasanaeth.

(2) Sicrhau bod gwasanaethau gwastraff yn cael eu darparu o fewn y gyllideb, bod arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau a heriau cyllidebol wedi'u bodloni a bod y taliadau ar gyfer 2024-25 yn cael eu gosod er mwyn annog yr un defnydd, o leiaf, o'r gwasanaeth ag yn 2023/24.

(3) Sicrhau bod gwasanaethau gwastraff gweddilliol yn aros yn y gyllideb a bod ailgylchu ychwanegol yn cael ei gasglu, i gyfrannu tuag at Dargedau Ailgylchu Statudol.

(4) Rhoi gwybod i'r Cabinet am newidiadau deddfwriaethol sydd yn yr arfaeth.

(5) Rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd o ran seilwaith.

(6) Galluogi cymryd tanysgrifiadau gwastraff gwyrdd ar gyfer 2024/25 o fis Ionawr 2024, gan alluogi’r cyfnod amser hiraf ar gyfer cymryd taliadau cyn i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Mawrth 2024.

(7) Rhoi cyfle i’r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ystyried manylion yr Adroddiad.

(8) Galluogi'r gwasanaeth i baratoi i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r gwasanaeth cyn gynted â phosibl.